GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION AIL GYFARFOD AR DDEG AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 11EG GORFFENNAF 2008

LLEOLIAD: GWESTY'R CELT, CAERNARFON

Yn bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Anthony Hughes
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Angela Jardine
Phil Bassett	Hélène Mansfield
Frank Bonello	Valerie Merriman
Neil Butler	Suzanne Nantcurvis
Tim Cox	Rosemond Nelson
Elwyn Davies	Hugh Pattrick
Sheila Drayton	Anne Robertson
Mike Edwards	Sarah Stockford
Ian Guy	Gwen Williams

Ymddiheuriadau:

Jane Morris	Jane Setchfield
Jacky Tonge	

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Jo Harris	Ysgrifenyddes y Cyngor
Joy Austin	Cynorthwyydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i ail gyfarfod ar ddeg ar hugain y Cyngor a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Jane Morris, Jane Setchfield a Jacky Tonge.

1.2 Estynnwyd croeso i'r sawl a oedd yn arsylwi yn yr oriel gyhoeddus.

1.3 Hefyd croesawodd y Cadeirydd Sue O'Halloran (Aelod o'r Cyngor o 01.09.08), Judy Moorhouse (Cadeirydd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr) ac Ian Matheson (Swyddog Cynllunio ac Ymchwil Addysgol, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel arsylwyr. Aeth ymlaen i longyfarch Ms Moorhouse a gafodd ei hanrhydeddu ag OBE yn Anrhydeddau Penblwydd y Frenhines.

1.4 Yna tynnwyd sylw'r aelodau at aelodaeth ddiwygiedig y Pwyllgorau Sefydlog, a fyddai'n dod i rym o 1af Medi 2008, i adlewyrchu'r aelodau a oedd newydd eu hethol a'r aelodau hynny y byddai eu cyfnod gwasanaeth yn dod i ben ar 30ain Awst 2008. Roedd yr aelodau'n fodlon ar y cyfuniadau newydd.

1.5 Aeth y Cadeirydd ymlaen i adrodd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal cyfweliadau ar gyfer y swydd wag oedd yn weddill ar y Cyngor. Roedd disgwyl penderfyniad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a byddai'r penderfyniad hwnnw'n cael ei gyfleu maes o law.

1.6 Ar y pwynt hwn, adroddodd y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Canlyniadau, fod Jacquie Turnbull wedi'i hailethol yn ddiwrthwynebiad yn Ddirprwy Gadeirydd i'r Cyngor. Roedd yr aelodau wedi'u hysbysu o hyn mewn llythyr ar 27ain Mai 2008. Byddai'r cyfnod gwasanaeth dwy flynedd yn dechrau o 1af Medi 2008. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r aelodau am eu hyder ynddi.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Derbyniwyd llythyr gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau mewn ymateb i Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2008-11 a'r Cynllun Gweithredol ar gyfer 2008-09. Mynegodd y Cadeirydd ei siom yn yr ymateb.

3.2 Dywedodd y Gweinidog y byddai oedi cyn ystyried cyngor y Cyngor ar drydedd a phedwaredd haen y Fframwaith Datblygiad Proffesiynol er mwyn ei ystyried ochr yn ochr â'r sector ôl-orfodol. Gofynnodd y llythyr am fwy o fanylion parthed arbedion effeithlonrwydd ond nododd y Cadeirydd fod mater arbed costau wedi'i gynnwys yng Nghynllun Gweithredol 2008-09.

3.3 Mewn perthynas â'r cyfeiriad yn y llythyr at ddileu feto'r Gweinidog o bosibl ar ffi gofrestru'r Cyngor, nododd y Cadeirydd mai'r Gweinidog ei hun oedd wedi sbarduno'r sylw ar y posibilrwydd hwn yn ei chyfarfod blynyddol â'r Aelodau.

3.4 Yn olaf, rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod yn y cyfarfod a fyddai'n cael ei gynnal yn fuan rhwng y Gweinidog, y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ar 16eg Medi 2008.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 1af Mai 2008

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir heblaw am ddau newid teipio.

Cofnod 15.4: Datblygu safbwynt y Cyngor ar drefniadau arolygu yn y dyfodol - diweddariad:

4.2 Byddai'r testun yn cael ei ddiwygio i ddarllen: "Dywedodd y Cadeirydd nad ysgolion yn unig ddylai fod yn atebol am ansawdd y gwasanaeth a dderbynnir gan blant ysgol yng Nghymru."

Cofnod 15.4: Datblygu safbwynt y Cyngor ar drefniadau arolygu yn y dyfodol - diweddariad:

4.3 Byddai'r gair "the" yn cael ei ddileu o'r frawddeg olaf yn y cofnodion Saesneg.

Materion yn codi:

4.4 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas ag Eitemau a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (19 i 24)

5.1 Roedd un aelod yn dymuno gofyn cwestiwn ar eitem 23 ar yr agenda: *Adroddiadau gan gynrychiolwyr y Cyngor ar grwpiau allanol.*

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 13eg Mehefin 2008.

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr a hysbysodd yr aelodau y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

6.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 9fed Mehefin 2008

7.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan Hugh Pattrick, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru, a gwahoddodd yr aelodau i godi unrhyw faterion yn codi.

7.2 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

7.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 9fed Mehefin 2008

8.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn i'r Cyngor gan Sheila Drayton a amlygodd nifer o bwyntiau.

8.2 Cofnod 1.2: Croeso a sylwadau agoriadol: Hysbyswyd yr aelodau bod un aelod o'r Pwyllgor heb fynychu'r cyfarfod am y trydydd tro heb anfon ymddiheuriadau a nododd ei bod yn amserol ystyried pa gamau y gellid eu cymryd. Fodd bynnag, am y byddai cyfnod gwasanaeth yr aelod yn dod i ben ar 31ain Awst roedd y Pwyllgor wedi cytuno na ddylid gwneud argymhelliad i'r Cyngor mewn perthynas â diarddel yr aelod.

8.3 Cofnod 2.3: Cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd 18fed Mawrth 2008: Byddai cyfarfod 'rhithwir' o'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei drefnu er mwyn i'r Aelodau allu ystyried canlyniadau'r archwiliad allanol a'r adroddiad ISA 260 yn benodol. Byddai cyfarfod llawn yn cael ei alw petai unrhyw faterion sylweddol yn codi o'r archwiliad.

8.4 Cofnod 3: Adroddiadau Archwilio Mewnol: Tynnwyd sylw'r Aelodau at lefel sylweddol y sicrwydd a roddwyd gan Archwilwyr Mewnol y Cyngor mewn perthynas â threfniadau Adnoddau Dynol, Recriwtio a Chadw a'r dulliau gweinyddu rhaglenni Cyllido Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar, a Datblygiad Proffesiynol. Gan gyfeirio at yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol a ddarparwyd fel atodiad i'r cofnodion, nododd y graff ar dudalen chwech a dynnodd gymhariaeth rhwng lefelau'r sicrwydd a gafodd y Cyngor ym mlynyddoedd gweithredu 2006/07 a 2007/08 a chyfartaledd y rheiny ar draws cleientiaid eraill o fewn llywodraeth ganolog. Roedd y Cyngor yn cymharu'n dda iawn yn erbyn y lleill ac estynnwyd llongyfarchiadau i'r swyddogion am hynny.

8.5 Cofnod 7: Cod Ymddygiad ac Arfer Gorau i Aelodau (Diwygiad): Hysbyswyd yr aelodau bod y Pwyllgor wedi argymell mai'r Cyngor ei hun ddylai osod sancsiynau ar aelod o'r Cyngor petai'n torri'r Cod, yn hytrach nag un aelod o'r Cyngor neu swyddog. Dylid nodi hyn yn glir.

8.6 Cofnod 8: Cost llogi lleoliadau: Yn dilyn ymholiad a godwyd yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, adroddwyd bod y costau a dalwyd yn ystod 2007-08 o fewn y swm a gyllidebwyd. Er y cydnabuwyd bod costau'n uwch pan fyddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal y tu allan i Gaerdydd, cytunodd y Pwyllgor fod costau'r dyfodol a chostau a ragwelwyd ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn rhesymol a nododd ei bod yn bwysig i'r Cyngor fod yn hygyrch i athrawon.

Materion yn codi:

8.7 Nododd aelod arall o'r Pwyllgor Archwilio fod rhai gwallau yn nhrefn rhifau'r cofnodion ac y byddai angen eu cywiro. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw destun ar goll.

8.8 Yn olaf, croesawodd y Cadeirydd ganlyniadau cadarnhaol yr adroddiad Archwilio Mewnol, gan gydnabod ymdrechion swyddogion y Cyngor.

8.9 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi.

8.10 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 13eg Mehefin 2008

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y cofnodion hyn yn fras a thynnodd sylw at y cynnydd a wnaed o ran datblygu safbwyntiau'r Cyngor ar Broffesiynoli'r gweithlu AB ac Achredu Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (AHCA). Cynghorwyd yr aelodau y byddai angen i'r Pwyllgor Polisi ymgymryd â gwaith pellach ar y ddau faes cyn cyflwyno papurau gerbron y Cyngor.

9.2 Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn annhebygol, unwaith i safbwynt y Cyngor gael ei gytuno, y byddai penderfyniad cynnar o blaid newid o du Llywodraeth Cynulliad Cymru. Serch hynny, dywedodd ei bod yn bwysig ar yr adeg hon i'r Cyngor gytuno ar ymagwedd gydlynol a fyddai'n ei roi mewn sefyllfa gref i ddadlau'r achos nawr ac yn y dyfodol.

9.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

10. Cyllido Sefydlu a DPC – adroddiad cynnydd (CyngACC 32/08)

10.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*), gan dynnu sylw at y cynnydd a wnaed mewn perthynas â setlo taliadau i ysgolion ar gyfer cyllido Sefydlu a DPC athrawon yng Nghymru a'r diffyg yn y cyllid grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer blynyddoedd gweithredol 2007-08 a 2008-09.

10.2 Roedd y Cyngor wedi derbyn cyfrifoldeb am weinyddu cyllid Sefydlu a DPC yng Nghymru o 1af Medi 2006. Roedd y trefniadau a nodwyd yn y ddogfen "*Cyrchu Cyllid ar gyfer Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar"* wedi'u diwygio ym mis Mehefin 2008 a'u dosbarthu i ysgolion ac AALlau.

10.3 Hysbyswyd yr aelodau bod £7.5 miliwn a £1.8 miliwn wedi'i ddefnyddio i gefnogi athrawon yng Nghymru, yn benodol ar gyfer eu Sefydlu a'u DPC ers i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb dros weinyddu'r maes gwaith hwn.

10.4 Roedd gwaith ar droed mewn nifer o feysydd. Roedd swyddogion yn mynd ar drywydd ceisiadau a wnaed gan nifer fach o athrawon yr oedd disgwyl iddynt gwblhau eu DPC erbyn diwedd tymor yr Hydref 2007, ond sydd heb gyflwyno'u ffurflenni gwerthuso terfynol. Cysylltwyd hefyd ag ysgolion mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2008-09 i ofyn i ffurflenni Gwerthuso DPC gael eu cyflwyno i'r Cyngor erbyn 4ydd Gorffennaf er mwyn i'r Cyngor dalu taliadau pan fydd yr ysgolion yn ailagor ym mis Medi.

10.5 Aeth ymlaen i adrodd bod swm Cyllid Grant y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn 2008/09 yn parhau'n llai na'r swm gofynnol. Roedd £5.6 miliwn wedi'i ddarparu o'i gymharu â'r £6.7 miliwn y nododd y Cyngor y byddai ei angen i gefnogi nifer yr athrawon yr oedd disgwyl iddynt fanteisio ar eu hawl. Yn ystod blwyddyn ariannol 2007/08 roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno i dalu'r diffyg a ymddangosodd yn ystod y flwyddyn. Roedd y Prif Weithredwr wedi ysgrifennu at y Cynulliad ar 30ain Mai 2008 i dynnu sylw'r swyddogion at y diffyg ac roedd cyfarfod wedi'i gynnal ar 30ain Mehefin 2008 i drafod trefniadau wrth gefn. Yna daethpwyd i gytundeb y byddai cyllid ychwanegol ar gyfer blwyddyn 2008/09 yn cael ei ddarparu.

10.6 Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar nifer o bwyntiau gan gynnwys y sefyllfa bosibl petai pob athro/athrawes oedd yn gymwys i gael cyllid Sefydlu a DPC yn manteisio ar eu hawl. Cadarnhaodd Hayden Llewellyn fod y niferoedd oedd yn cymryd yr hawl yn uwch na phan gâi'r trefniant ei weinyddu gan yr AALlau unigol. Ychwanegodd ei bod yn ymddangos i'r Cyngor dderbyn y cyfrifoldeb mewn blwyddyn annodweddiadol o ymateb isel, a bod hyn wedi arwain at beth ailystyried wrth lunio'r amcangyfrifon cyfredol.

10.7 Roedd un aelod yn poeni bod y Cyngor yn ymddangos fel petai'n mynd 'â'i gap yn ei law' at Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cael y cyllid oedd ei angen ar gyfer yr hyn a ddylai fod yn hawl i athrawon ar yr adeg hon o'u gyrfaoedd. Adroddodd y Prif Weithredwr fod y Senedd wedi pleidleisio ar gyllidebau penodol yn cael eu dyrannu i feysydd cyllid o'r fath a bod swyddogion y Cynulliad wedi datgan na ellid gwario'n fwy na'r rhain.

10.8 Ar y pwynt hwn, cynigiodd y Dirprwy Gadeirydd y dylai'r Cyngor fynegi barn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bod angen i'r gyllideb ar gyfer y rhaglen Sefydlu a DPC adlewyrchu'r hawl bosibl yn ei chyfanrwydd. Roedd yr aelodau'n cydsynio a chytunodd y Cadeirydd i godi'r mater gyda'r Gweinidog yn eu cyfarfod ar 16eg Medi 2008.

10.9 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad ac ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

11. Rhaglen Cyllido Datblygiad Proffesiynol – adroddiad cynnydd (CyngACC 33/08)

11.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, gwahoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) yr aelodau i nodi cynnydd yn y maes hwn o waith y Cyngor ac amlygodd lwyddiant y rhaglen yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08 lle roedd 5,844 o athrawon yng Nghymru wedi'u cefnogi gyda chyfanswm o £2.7 miliwn o gyllid grant yn cael ei wario.

<u>Rhaglen Gyllido 2008-09:</u>

11.2 Gan symud ymlaen i raglen 2008-09, rhoddwyd adroddiad ar swm y cyllid a ddyrannwyd eisoes i athrawon yng Nghymru ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. O'r £2.3 miliwn sydd ar gael, roedd £1.5 miliwn eisoes wedi'i ddyrannu hyd yma a disgwyliwyd y byddai'r gyllideb gyfan yn cael ei dyrannu erbyn mis Tachwedd 2008. Hysbyswyd yr aelodau na fyddai cyllid pellach yn cael ei ddarparu gan y Cynulliad er y gellid ystyried dargyfeirio rhywfaint o gyllid o ffrydiau cyllid eraill a weinyddwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Roedd y Cyngor mewn sefyllfa anodd yn gyffredinol. Roedd y Cyngor wedi gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r rhaglen ac roedd pryderon wedi'u lleisio'n flaenorol ynghylch yr effaith a gâi diffyg cyllid ar nifer yr

athrawon a oedd yn ymgeisio wedi hynny. Dylid osgoi ymagwedd o neidio rhwng atal ac ailgychwyn y cyllid.

11.3 Mynegodd yr aelodau nifer o safbwyntiau, gan gynnwys y sylw bod y sefyllfa bresennol yn annerbyniol; bod swm cyffredinol y cyllid a gynigwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi gostwng a bod cyllid o bob math wedi gostwng yn ystod y degawd diwethaf, nid yn unig y cyllid a weinyddwyd i athrawon drwy law'r Cyngor.

11.4 Nodwyd bod cyfran o'r gyllideb yn cael ei neilltuo ar gyfer cynllun peilot Athro Siartredig a bod y swm dan sylw wedi cynyddu rhywfaint ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fodd bynnag, roedd hyn wedi'i gynllunio ac roedd swyddogion y Cynulliad yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa.

11.5 Rhoddodd y Cadeirydd sicrwydd y byddai'n nodi safbwynt a phryderon y Cyngor yn ei gyfarfod gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 16eg Medi 2008.

11.6 Ar y pwynt hwn gwahoddodd y Prif Weithredwr yr aelodau i ystyried pa gamau y dylai'r Cyngor eu cymryd unwaith i'r cyllid i gyd ar gyfer y rhaglen gael ei ddyrannu. Ystyriwyd lleihau'r marchnata ar gyfer y rhaglen a/neu ailffocysu'r meini prawf cymhwyso. Gallai hyn gyd-fynd â thrafodaethau cynharach yr aelodau lle codwyd pryder ynghylch swmp sylweddol y cyllid a oedd yn cael ei 'gipio' at ddibenion cyrsiau cynnal sgiliau. Y farn oedd y dylai'r rhain gael eu cyllido gan yr AALl oni bai eu bod yn berthnasol i ddatblygiad proffesiynol yr athro/athrawes unigol.

11.7 Roedd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) yn cefnogi'r penderfyniad ac ychwanegodd er gwybodaeth y byddai'n siomedig tynnu cymorth cyllid yn ôl i athrawon mewn meysydd lle roedd yr ymateb yn isel ac roedd gwaith sylweddol gan swyddogion wedi sbarduno brwdfrydedd a nifer uwch o geisiadau. Dywedodd hefyd y gallai beri anawsterau petai'r meini prawf cymhwyso'n cael eu diwygio ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn gyllido, ac y byddai'n arwain at anghysondebau anochel ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Byddai'r ddau ganlyniad yn amhoblogaidd ymysg athrawon.

11.8 Pwysodd un aelod y dylai'r mater parthed cyrsiau 'cynnal' gael ei ddwyn gerbron y Gweinidog am fod y sefyllfa wael yn cael parhau cyhyd â bod y Cyngor yn parhau i'w cyllido. Lleisiodd aelod arall ei farn y dylid dyrannu'r cyllid yn syml ddigon hyd nes iddo ddod i ben. Ymhlith y pwyntiau eraill roedd: byddai'n beryglus lleihau ymdrechion marchnata yn y tymor hir am y gellid dadlau nad oedd y rhaglen yn haeddu lefel uwch o farchnata oherwydd y lefel anochel is o geisiadau; dylid defnyddio marchnata'n benodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymysg penaethiaid i wrthlofnodi ceisiadau am ddatblygiad â ffocws unigol yn unig, a defnyddio data a thystiolaeth y Cyngor i gefnogi'r achos yn y ffordd orau am ragor o gyllid. Nodwyd hefyd y gallai fod angen diwygio dogfennau polisi eraill er mwyn cadw cysondeb petai'r Cyngor yn penderfynu newid ei safbwynt ar ddull dyrannu'r rhaglen Gyllido Datblygiad Proffesiynol.

11.9 Lleisiodd y Dirprwy Gadeirydd ei barn ei bod yn amserol sicrhau bod y meini prawf cymhwyso'n eglur ac yn cyd-fynd â safbwynt y Cyngor ac y byddai'r dadansoddiad o ddata manwl ynghylch y defnydd o gyllid, a gâi ei gyflwyno yn y cyfarfod ar 22ain Hydref 2008, yn hanfodol er mwyn llunio dadl gydlynol a chadarn i'w chyflwyno gerbron y Cynulliad.

11.10 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad ac ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

12. Adolygu'r Cod Proffesiynol (CyngACC 34/08)

12.1 Cafwyd amlinelliad byr gan Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) o'r papur hwn ac amlygodd mai CyngACC oedd yr unig Gyngor yn y DU ac Iwerddon erbyn hyn nad oedd ganddo God Proffesiynol a oedd yn nodi'n benodol yr isafswm safonau a ddisgwyliwyd gan athrawon yn rhan o'r ffordd câi'r proffesiwn addysgu ei reoleiddio.

12.2 O dan *Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch* 1998, mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi Cod Proffesiynol ar gyfer athrawon cofrestredig. Cytunwyd ar God diwygiedig ym mis Ionawr 2006 ar ôl ymgynghori â'r proffesiwn. Teitl newydd y Cod oedd y '*Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol'* ac roedd yn ddogfen gefnogol ac uchelgeisiol. I ategu hyn, roedd *Proffesiynoldeb ar Waith* wedi'i ddatblygu ac roedd yn manylu ar faterion a sefyllfaoedd a allai godi o bosibl, gan fwrw amheuaeth dros broffesiynoldeb athro/athrawes. Cafwyd ymateb da i'r ddwy daflen gan athrawon ac undebau athrawon fel ei gilydd.

12.3 Cydnabu'r Cadeirydd y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Cofrestru i ddatblygu cynigion i'w trafod er mwyn diwygio *Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol* y Cyngor. Roedd copïau o ddogfennau Codau Proffesiynol cyrff proffesiynol eraill wedi'u darparu i'r aelodau, ac roedd y rheiny'n nodi isafswm safonau.

12.4 Cyflwynwyd tri argymhelliad i'r Cyngor eu hystyried. Y rhain oedd: bod dogfennau presennol y Cyngor yn bwysig ac o ddefnydd i athrawon; dylai'r Cyngor geisio nodi'r isafswm safonau er mwyn rheoleiddio'r proffesiwn a darparu eglurder i'r cyhoedd; ac yn olaf, ffafriwyd ymagwedd debyg i'r hyn oedd ar waith o fewn dogfen CyngAC yr Alban a nododd arweiniad heb geisio ymdrin ag amgylchiadau unigol yn fanwl nac ychwaith darparu rhestr gyflawn o ymddygiad annerbyniol.

12.5 Trafododd yr aelodau'r opsiynau a oedd ar gael iddynt. Er nad oedd un aelod yn gweld angen newid neu ychwanegu at ddogfennau presennol y Cyngor, holodd a oedd unrhyw adborth wedi'i dderbyn a fyddai'n golygu bod angen gwneud hyn. Adroddodd Hayden Llewellyn fod nifer o athrawon a oedd yn destun craffu gan Bwyllgor Safonau Proffesiynol, ynghyd â rhai cynrychiolwyr o'r undebau, wedi gofyn am eglurhad a manylion ynghylch yr hyn oedd yn gyfystyr â 'throsedd berthnasol' a allai arwain at ymchwiliad.

12.6 Trafododd yr aelodau hefyd pa mor ymarferol fyddai diffinio gweithredoedd camymddygiad a rhoi enghreifftiau helaeth. Er bod peth cefnogaeth o blaid rhoi manylion helaeth, roedd yr aelodau'n cytuno y dylid cyfuno'r ddwy ddogfen a fodolai eisoes i ddarparu fframwaith cryfach a fyddai'n adnodd i athrawon wybod beth yn union oedd y ffin mewn perthynas â chamymddygiad.

12.7 Yng ngoleuni cyfarwyddyd yr aelodau, cytunwyd y byddai swyddogion yn mynd ati i ddatblygu'r ddogfen ddiwygiedig ymhellach ac y byddai'r Pwyllgor Cofrestru yn derbyn adroddiad ar y mater ym mis Medi 2008. Byddai drafft ymgynghorol yn cael ei ddarparu i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 6ed Chwefror 2009.

13. Pwyllgorau Safonau Proffesiynol – aelodaeth a gwneud penderfyniadau (CyngACC 35/08)

13.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, gwahoddodd Hayden Llewellyn *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon)* yr aelodau i drafod pedwar prif fater. Y rhain oedd: Aelodaeth Pwyllgorau Safonau Proffesiynol; Cadeiryddion y Pwyllgorau hynny; hyfforddiant aelodau a chysondeb wrth wneud penderfyniadau. Roedd y materion hyn wedi'u hamlygu i'w trafod yn y cyfarfod blaenorol ar 1af Mai 2008.

<u>Aelodaeth Pwyllgorau:</u>

13.2 Gan gymryd pob mater yn ei dro, tynnodd sylw at y prif bwyntiau ac aeth ymlaen i groesawu sylwadau. Ystyriwyd y posibilrwydd y gallai cynyddu carfan yr aelodau, cyn-

aelodau a phenodiadau lleyg a oedd ar gael i wasanaethu ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol arwain at anghysondebau posibl wrth wneud penderfyniadau o ganlyniad i'r ffaith bod pob aelod yn gwrando ar lai o achosion.

13.3 Nododd yr aelodau fod rhai o gyn-aelodau'r Cyngor yn dal i addysgu ac felly gallent gymryd lle athro gofynnol ar bob panel. Yn ogystal, am nad oedd gorfodaeth iddynt fynychu cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau Sefydlog y Cyngor, gallent fod ar gael yn fwy i fynychu gwrandawiadau. Cydnabuwyd bod pwysau amser sylweddol ar aelodau.

13.4 Cafwyd ymateb da i'r opsiwn o ddatblygu carfannau penodol o aelodau i wasanaethu ar fathau penodol o achosion. Roedd yr aelodau'n cytuno y byddai angen i hyfforddiant diweddaru blynyddol gwmpasu ystod eang o agweddau i ddarparu dealltwriaeth lawn o'r broses ddisgyblu gyfan, ac y byddai hyfforddiant ychwanegol yn hwyluso arbenigedd.

13.5 Roedd yr aelodau'n fodlon i ystyriaeth bellach gael ei rhoi i ddatblygu'r mathau o achosion y byddai swyddogion yn ymdrin â nhw. Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru fyddai'n rhoi ei sêl bendith ar y rhain yn y pen draw.

13.6 Cafwyd cyfarwyddyd hefyd ar nifer o bwyntiau eraill. Yn gyntaf, gallai paneli Pwyllgorau gynnwys tri aelod yn lle pump a byddai hyn yn gwneud gwrandawiadau'n llai bygythiol i'r athro/athrawes oedd yn mynychu. Dylid datblygu meini prawf ar gyfer yr aelodau hynny oedd yn rhan o'r garfan o bobl a oedd ar gael i wasanaethu ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol.

<u>Cadeiryddion Pwyllgorau:</u>

13.7 Amlygodd Hayden Llewellyn nifer y bobl a hyfforddwyd fel Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Proffesiynol a oedd yn cynnwys nifer fach o athrawon wrth eu gwaith. Aeth ymlaen i wahodd yr aelodau i drafod y trefniadau y gellid eu sefydlu at y dyfodol.

13.8 Roedd yr aelodau'n cytuno y dylid datblygu manyleb rôl gyda set o feini prawf neu gymwyseddau ar gyfer cadeiryddion. Tybiwyd bod y Cyngor eisoes yn ymwybodol o'r hyn oedd yn ofynnol ond nid oedd wedi ei nodi'n bendant. Roedd peth manylion wedi'u datblygu yn ystod y broses o recriwtio aelodau lleyg a gellid defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer gwaith pellach.

<u>Hyfforddiant i aelodau:</u>

13.9 Tynnodd Hayden Llewellyn sylw at nifer yr aelodau a chyn-aelodau nad oeddent wedi mynychu'r diwrnod hyfforddiant yn 2008 a chododd y cwestiwn a ddylai'r sesiwn ddod yn beth gorfodol.

13.10 Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai'r hyfforddiant ddod yn beth gorfodol ar gyfer aelodau'r carfannau er mwyn gallu gwasanaethu ar Bwyllgorau Safonau Proffesiynol. Croesawodd yr aelodau'r newid yn y dyddiad ar gyfer sesiwn 2009 a fyddai'n ei gwneud yn haws i bobl fynychu.

<u>Cysondeb wrth wneud penderfyniadau:</u>

13.11 Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, roedd sesiynau dadfriffio'n parhau i gael eu cynnal ar ôl pob gwrandawiad. Roedd y broses yn gweithio'n dda ac roedd y pwyntiau a godwyd gan aelodau'r panel a'r camau gweithredu dilynol gan swyddogion yn cael eu hadrodd i'r Cyngor a'u cyflwyno yn niwrnod hyfforddiant yr aelodaeth i'w trafod.

13.12 Cafwyd trafodaeth hir ac amlygwyd dau feddylfryd. Y naill oedd y gallai'r Cyngor ddilyn arfer CyngAC Lloegr a chyrff rheoleiddio eraill drwy gontractio cwmni arbenigol allanol i arsylwi a chynnig sylwadau ar berfformiad aelodau'r Pwyllgor Safonau Proffesiynol.

13.13 Cymerodd yr aelodau'r cyfle i egluro manylion trefniadau CyngAC Lloegr a gofyn am sicrwydd gan y swyddogion y câi'r costau eu lleiafu.

13.14 Y meddylfryd arall oedd y gallai'r Cyngor, yn rhan o'r proffesiwn addysgu yng Nghymru, ymdrin â'i waith ei hun o hunanadfyfyrio ac adolygu ei berfformiad. Lleisiodd un aelod ei farn bod y garfan o gyn-aelodau yn darparu adnodd gwerthfawr a allai o bosibl ddarparu'r arbenigedd gofynnol i ymgymryd ag asesiad. Ystyriodd yr aelodau a ddylai'r hunanwerthuso fesur effeithiolrwydd y Pwyllgor ynteu effeithiolrwydd yr aelod unigol. Os mai'r ail elfen oedd dan sylw, teimlwyd ei bod yn bwysig bod yn ochelgar.

13.15 I grynhoi, casgliad yr aelodau oedd y byddai angen i broses fewnol fod yn ddigon cadarn fel y gallai wrthsefyll craffu allanol ac mai'r ansawdd a'r broses o ddod i benderfyniad oedd y mater dan sylw yma. Penderfyniadau Pwyllgorau Safonau Proffesiynol fyddai drechaf o hyd.

13.16 Gwnaed rhai pwyntiau terfynol ar ddiwedd y drafodaeth: yn gyntaf, byddai'n bwysig canfod a fyddai unrhyw adroddiadau gwerthuso a gyflwynwyd i'r Cyngor gan aseswr allanol yn hygyrch o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac yn ail, byddai mecanwaith o ymdrin â diffygion a nodwyd yn cael ei ddatblygu a'i roi yn ei le o'r cychwyn cyntaf.

13.17 Croesawodd y Cadeirydd gyfarwyddyd yr aelodau ac eglurodd nad oedd penderfyniad wedi'i wneud ar yr adeg hon. Byddai swyddogion yn datblygu'r opsiynau a drafodwyd a byddai trafodaeth bellach yn digwydd yn y Pwyllgor Cofrestru ar 17eg Medi 2008.

14. Diweddariad ar Athro Siartredig ac amseru cyflwyno'r rhaglen yn y brif ffrwd (CyngACC 36/08)

14.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad hwn ar gynllun peilot Athro Siartredig, gan dynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn y cynllun peilot oedd yn mynd rhagddo.

14.2 Roedd y rhaglen Athro Siartredig wedi'i datblygu yn rhan o Fframwaith Datblygiad Proffesiynol y Cyngor, a fyddai'n galluogi athrawon yng Nghymru i ennill statws siartredig. Roedd cynllun peilot y rhaglen hon wedi dechrau ym mis Medi 2007 a gwahoddwyd yr aelodau i drafod y dyddiad i ddechrau cyflwyno'r rhaglen yn y brif ffrwd.

14.3 Cynghorwyd yr aelodau bod y modiwl peilot cyntaf wedi'i gwblhau a bod adroddiad crynodol wedi'i ddarparu gan bartneriaeth y modiwl, sef Prifysgol Fetropolitan Abertawe ac Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru. Byddai tri chynllun peilot pellach yn APCC, Coleg Prifysgol Cymru Casnewydd a chonsortiwm SWAMWAC yn cael eu cwblhau cyn gwyliau'r haf. Dechreuodd cynllun peilot llwybr achredu ar 29ain Chwefror 2008 gyda phedwar o athrawon yn cymryd rhan; roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'u portffolio gyda chefnogaeth lawn dau ymgynghorydd ac roedd cyfarfod ar gyfer yr holl gyfranogwyr yn cael ei gynnal ar 8fed Hydref 2008. Roedd nifer o gynlluniau peilot eraill yn dechrau yn ystod blwyddyn weithredol 2008-09 a hysbyswyd yr aelodau bod y cyfranogwyr ar gyfer tri chynllun heb eu dethol eto. Roedd pecynnau gwybodaeth wedi'u dosbarthu i bob athro/athrawes a fynegodd ddiddordeb hyd yma ac roedd y gwaith o ddethol cyfranogwyr eto i'w gyflawni.

14.4 Yn olaf, adroddodd fod gwaith wedi dechrau ar y gwerthusiad annibynnol gan y Sefydliad Ymchwil Addysgol Gymhwysol yn APCC, a oedd yn cynnwys nifer o gyfarfodydd cwmpasu rhwng swyddogion a'r Athro Egan; cytuno ar gynllun y prosiect; holiadur drafft a theclynnau cyfweld ac arsylwi diwrnodau cyswllt yng nghynlluniau peilot Prifysgol Cymru a Choleg Prifysgol Cymru Casnewydd.

14.4 Roedd yr aelodau'n fodlon i'r rhaglen beilot gael ei hymestyn am flwyddyn bellach, gan symud dyddiad cychwyn y rhaglen yn y brif ffrwd i 2011. Byddai angen cytundeb y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau mewn perthynas â chyllido'r cynllun peilot.

14.5 Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y niferoedd sy'n dilyn pob modiwl peilot, gan ystyried y niferoedd posibl fyddai'n tynnu'n ôl. Roedd yn braf gan yr aelodau nodi bod

y rhaglen beilot yn ymddangos yn boblogaidd gyda'r proffesiwn addysgu yng Nghymru.

14.6 Nid oedd unrhyw bwyntiau eraill i'w hegluro ac roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad diweddaru.

15. Safbwynt drafft y Cyngor ar Drefniadau Arolygu yn y Dyfodol (CyngACC 37/08)

15.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ystyried ac, os yn briodol, mabwysiadu'r safbwynt drafft ar drefniadau arolygu yn y dyfodol yng Nghymru.

15.2 Estynnwyd diolch i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i ddatblygu'r safbwynt ac i Kevin Pascoe, y cyn-Reolwr Polisi a Chynllunio a oedd wedi goruchwylio'i ddatblygiad. Roedd y papur safbwynt wedi'i drafod gan y Pwyllgor Polisi yn ei gyfarfod ar 13eg Mehefin 2008 ac ymgorfforwyd y newidiadau terfynol cyn argymell y papur i'r Cyngor.

15.3 Tynnwyd sylw at y saith thema allweddol yr oedd y Cyngor yn dymuno y byddent yn dylanwadu ar ddatblygiad trefniadau arolygu yn y dyfodol. Roedd un o'r themâu'n annog y dylid symud o'r term 'arolygu' tuag at fodel o 'adolygu gwasanaeth' a'r ethos gyffredinol oedd mwyafu effaith yr adolygiad tra'n peri'r ymyrraeth leiaf bosibl.

15.4 Roedd yr aelodau'n fodlon gyda'r papur safbwynt terfynol ac yn fodlon iddo gael ei fabwysiadu.

16. Adroddiad Blynyddol Drafft 2007-08 a Chyfrifon Blynyddol 2007-08 (CyngACC 38/08)

16.1 Cyflwynwyd y papur hwn, a ddosbarthwyd ar ddiwrnod y cyfarfod, gan y Prif Weithredwr. Esboniodd y byddai ef yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Drafft 2007-08 ac y byddai'r Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol yn cyflwyno Cyfrifon Blynyddol 2007-08.

16.2 Roedd gofyn i'r Cyngor gyflwyno Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn adrodd ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a'r cyflwyniadau yn erbyn y targedau a osodwyd yng Nghynllun Gweithredol 2007-08.

<u>Adroddiad Blynyddol Drafft 2007-08:</u>

16.3 Cynghorwyd yr aelodau bod yr adroddiad yn dilyn yr un patrwm â 2006-07, gan gynnwys crynodeb o'r cyfrifon ac y byddai'n cael ei ddylunio'n broffesiynol a'i gyhoeddi ar ffurf copi caled ac ar wefan y Cyngor. Bu cryn gyflawniadau ac roedd y rhain wedi'u nodi yn y Crynodeb Gweithredol. Gwahoddodd yr aelodau i amlygu llwyddiannau allweddol pellach a newidiadau eraill a gofynnwyd i'r rhain gael eu trosglwyddo i'r swyddogion erbyn 18fed Gorffennaf 2008 i'w cynnwys.

<u>Cyfrifon Blynyddol Drafft 2007-08:</u>

16.4 Esboniodd Julia Evans (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol*) fod gofyn cyflwyno'r Cyfrifon Blynyddol mewn ffordd benodol a'u bod yn darparu'r adroddiadau gofynnol, y sylwadau a'r cyfrifon heb eu harchwilio i'r Cyngor.

16.5 Gan amlygu pwyntiau i'w nodi'n arbennig, tynnodd sylw at y diffyg o £207,000 a nodwyd ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2008. Roedd y diffyg wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r nifer uwch o wrandawiadau Safonau Proffesiynol. Roedd y Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer deng gwrandawiad ond roedd tri ar hugain wedi'u trefnu yn ystod y flwyddyn ariannol, ar

gost gyfartalog o £15,000. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09, roedd cyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer 25 o wrandawiadau.

16.6 Aeth ymlaen i adrodd ar y meysydd lle roedd gwariant wedi cynyddu, sef: cyflogi chwe aelod ychwanegol o staff a ffïoedd cyfreithiol uwch ar gyfer cyngor gwaith achosion safonau proffesiynol i'r Cyngor. Roedd dwy o gronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi'u defnyddio i gynorthwyo'r etholiad ar gyfer aelodau o blith athrawon ac i dalu cost uwch y gwaith disgyblu.

16.7 Nododd yr aelodau'r adroddiadau ac aethant ymlaen i ofyn dau gwestiwn. Roedd cost uwch y rhent o ganlyniad i'r lle ychwanegol yn y swyddfa a gymerwyd ym mis Medi 2006 a'r adolygiad o'r rhent a ddisgwyliwyd. Yn olaf, eglurwyd y trefniadau ar gyfer cynllun pensiwn y cyflogeion.

16.8 Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau pellach.

17. Cynllun Cydraddoldeb Anabledd Diwygiedig (CyngACC 39/08)

17.1 Wrth gyflwyno'r cynllun diwygiedig hwn, atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod y cynllun interim wedi'i fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2007 gyda'r cytundeb i'w adolygu ym mis Gorffennaf 2008. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o aelodau presennol a chyn-aelodau'r Cyngor wedi goruchwylio datblygiad pellach y polisi a oedd wedi'i seilio ar fewnbwn defnyddwyr sy'n anabl.

17.2 Wrth galon y gwaith o ddatblygu'r cynllun diwygiedig roedd mewnbwn y Grŵp Cyfeirio Athrawon Anabl a oedd wedi'i greu'n benodol at y diben hwn er bod anawsterau sylweddol wedi bodoli yn y cychwyn o ran cael mewnbwn gan athrawon anabl. Roedd y Cyngor wedi cyhoeddi nifer o erthyglau yng nghyfnodolyn *Addysgu Cymru* a'r wasg gyffredinol yn croesawu cymorth gan athrawon anabl ac roedd y rhain wedi helpu i gael ymgysylltiad hanfodol gan fwy nag ugain o athrawon.

17.3 Roedd y Pwyllgorau Gweithredol a Pholisi wedi cymeradwyo'r cynllun drafft a gyflwynwyd iddynt ei ystyried a'i fabwysiadu os bernid ei fod yn addas.

17.4 Croesawodd yr aelodau'r cynllun diwygiedig a diolchwyd i Kevin Pascoe, y cyn-Reolwr Polisi a Chynllunio, a oedd wedi cyfrannu'n sylweddol wrth ei ddatblygu.

17.5 Gofynnwyd un cwestiwn ynghylch mynediad i bobl anabl i swyddfeydd y Cyngor yn Nhŷ Southgate o'r maes parcio. Ni holwyd unrhyw gwestiynau eraill a chytunodd yr aelodau i fabwysiadu'r cynllun heb ei newid ymhellach.

18. Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r safonau proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU/HLTA) (CyngACC 40/08)

18.1 Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynigion i ddiwygio safonau proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU). Oherwydd cyfnod byr y cyfnod ymgynghori, sef pedair wythnos, gwahoddwyd yr aelodau i roi cyfarwyddyd ar gyfer drafftio ymateb a throsglwyddo'r gwaith o roi'r ymateb yn ei ffurf derfynol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr er mwyn ei gyflwyno erbyn 18fed Gorffennaf 2008.

18.2 Roedd y safonau CALU wedi'u cyhoeddi yn 2004 ac roeddent yn adlewyrchu'r safonau a gyflwynwyd yn Lloegr. Roedd yr Adran Hyfforddiant a Datblygiad wedi cynnal adolygiad o'r safonau yn 2007 ac, o ganlyniad, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar y we yn unig ar 17eg Mehefin 2008. Roedd cynigion y Cynulliad wedi'u seilio ar y safonau newydd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn

Lloegr gyda mân newidiadau i ystyried y Cwricwlwm Cymreig a chydraddoldeb iaith. Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd y byddai'r safonau diwygiedig ar gyfer CALU yn eu lle o fis Medi 2008.

18.3 Nododd y Cadeirydd cyn lleied o newidiadau a wnaed gan swyddogion y Cynulliad wrth ddefnyddio safonau Lloegr fel man cychwyn ar gyfer datblygu safbwynt diwygiedig yng Nghymru.

18.4 Eglurwyd nad oedd y safonau'n cyfeirio at Gynorthwywyr Addysgu, a bod yr ymgynghoriad yn ymwneud yn unig â Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch.

18.5 Awgrymodd un aelod y gellid cynnwys materion yn ymwneud ag amddiffyn plant.

18.6 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau pellach ac roedd yr aelodau'n fodlon i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gymryd y dasg o lunio'r ymateb yn ei ffurf derfynol. Dylid cyflwyno sylwadau pellach i'r swyddogion cyn gynted â phosibl oherwydd yr amserlen dynn.

19. Adroddiadau gan gynrychiolwyr y Cyngor ar grwpiau allanol (CyngACC 45/08)

19.1 Gofynnodd un aelod am eglurhad ynghylch cyfleoedd yn y dyfodol i'r Cyngor fod yn gysylltiedig â gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ac unrhyw adolygiadau ohono. Yn arbennig, roedd yn pryderu am faterion gweithredu a chyllid. Esboniodd y Prif Weithredwr nad oedd y Cyngor wedi'i wahodd i fod yn aelod o unrhyw grŵp adolygu a allai ddod i fodolaeth ac y byddai gwahoddiad yn cael ei ymestyn i bawb petai un yn dod. Cytunwyd y byddai ymholiadau yn cael eu gwneud gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ganfod a oedd grŵp o'r fath yn bodoli ac a allai CyngACC gael ei wahodd i gymryd rhan ynddo.

19.2 Ar yr adeg hon cynigiodd aelod arall y dylai'r Cyngor ddatblygu safbwynt ar y Cyfnod Sylfaen. Esboniodd y Cadeirydd y byddai angen i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad er mwyn datblygu safbwynt a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried.

19.3 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill ac roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad.

20. Unrhyw fater arall

20.1 Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad i'r aelodau hynny o'r Cyngor yr oedd tymor eu gwasanaeth yn dod i ben ar 31ain Awst 2008. Ar ran y Cyngor, soniodd am y cynnydd rhagorol a wnaed ers sefydlu'r Cyngor yn 2000 a'r cyflawniadau a gafwyd. Nododd gyfraniadau Gwen Williams a Goronwy Jones a fu'n aelodau ers 2000; Rosemond Nelson, Anthony Hughes a Val Merriman ers 2004 a Neil Butler ers 2007.

20.2 Roedd yr aelodau'n ategu'r diolchiadau a'r gwerthfawrogiad am waith pwysig yr aelodau oedd yn gadael.

20.3 Nid oedd unrhyw fater arall yn Adran Gyhoeddus y cyfarfod.

20.4 Yna aeth y Cyngor i Sesiwn Breifat.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Mercher 22ain Hydref 2008
yng
Ngwesty Coed Y Mwstwr, Llangrallo ger Pen-y-bont ar Ogwr